





Coleg Nyrsio Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales



Addysg Cyn-cofrestru




## Crynodeb Gweithredol

Bwriedir i'r datganiad safbwynt amlygu blaenoriaethau dylanwadu a safbwyntiau Coleg Brenhinol Nyrsio (RCN) Cymru ar feysydd addysgol allweddol yn y radd nyrsio cyn-cofrestru/israddedig.

Mae materion yn ymwneud ag addysg uwch, mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a chomisiynu addysg ôl-gofrestru arbenigol y tu hwnt i gylch gwaith y papur felly.

Mae'r papur hwn yn bwysig gan mai'r paratoad cychwynnol sy'n arwain at gymhwyso fel nyrs yw'r seilwaith y mae'r holl faterion eraill sy'n gysylltiedig â nyrsio wedi eu datblygu arno, gan gynnwys: cwmpas a safonau arfer nyrsio; recriwtio; cadw; niferoedd staffio; arbenigo; a strwythurau gyrfaol.

Ym mis Mai 2021, bydd poblogaeth Cymru yn ethol Llywodraeth Cymru newydd. Yn barod am hyn, mae RCN Cymru wedi lansio maniffesto yn galw ar bob plaid wleidyddol Wales i Bleidleisio Dros Nyrsio. I gael y newyddion diweddaraf, [cliciwch yma](#).



## Egwyddorion Polisi

1

Bydd RCN Cymru yn hyrwyddo, trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a dylanwadu gwleidyddol, angenrheidrwyd y radd nyrsio ac yn cefnogi darpariaeth barhaus addysg nyrsio o ansawdd uchel.

2


Mae RCN Cymru yn cefnogi ehangu moddau mynediad i fyfyrwyr at y rhaglen gradd nyrsio. Mae hyn yn cynnwys model prentisiaeth genedlaethol, dysgu o bell a dysgu rhan-amser.

3

Mae RCN Cymru yn credu y dylai myfyrwyr nyrsio yng Nghymru gael eu cynorthwyo yn ariannol gan Lywodraeth Cymru ac y dylai fod dulliau hyblyg iddynt gael cymorth, gan gynnwys bwrsariaeth y GIG a chymorthion ariannol eraill gan nad oes un ateb sy'n addas i bawb.

4

Mae RCN Cymru yn cydnabod yr angen i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a phroffesiynol nyrsio fel maes addysgu ac ymchwil sy'n ffynnu yn y sector addysg uwch.



## Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>2</b>
<b>Egwyddorion polisi</b>	<b>3</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>Adran 1</b> Hyrwyddo angenrheidrwydd y radd nyrsio a sicrhau ansawdd uchel parhaus addysg nyrsio	<b>7</b>
<b>Adran 2</b> Ehangu mynediad i fyfyrwyr at y rhaglen gradd nyrsio	<b>25</b>
<b>Adran 3</b> Sicrhau cymorth ariannol rhagorol a hyblygrwydd i fyfyrwyr nyrsio	<b>28</b>
<b>Adran 4</b> Sicrhau cynaliadwyedd ariannol a phroffesiynol nyrsio yn y sector addysg uwch	<b>33</b>



## Cyflwyniad

Mae RCN Cymru yn gweithio i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn derbyn yr ansawdd uchaf o ofal nyrsio ym mhob lleoliad y caiff ei ddarparu.


Mae swyddogaeth y nyrs yn esblygu' n barhaus i ddiwallu anghenion newidiol cleifion, eu teuluoedd a gofalwyr. Mae addysg, sy'n dechrau gyda'r cwrs cyn-cofrestru, yn hanfodol i sicrhau proffesiwn hynod fedrus, ymroddedig ac ymgysylltiol sy'n ymdrechu'n gyson i wella gofal cleifion.

Mae'r rhaglen radd yn hanfodol i addysgu er mwyn i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau deallusol datrys problemau, sgiliau ymchwil, myfyrio a dysgu parhaus sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r crebwyll proffesiynol gofynnol i'w gymhwyso i wybodaeth ac arfer clinigol.


Canfu gwaith ymchwil yn 2014, a gynhaliwyd mewn naw gwlad yn Ewrop, fod gweithlu nyrsio sydd wedi'i addysgu yn well yn lleihau nifer y marwolaethau diangen. Am bob cynnydd o 10% i nifer y nyrsys sydd wedi'u haddysgu i lefel gradd Baglor ceir gostyngiad o 7% i farwolaethau cleifion<sup>1</sup>.

Mae'n rhaid bod cymorth ariannol a hyblygrwydd o ran mynediad ar waith i gefnogi a chynnal mynediad at y rhaglen gradd nyrsio i fyfyrwyr.

<sup>1</sup> GIG, 2014. *Patients are safer with better-educated nurses*, <https://www.nhs.uk/news/medical-practice/patients-are-safer-with-better-educated-nurses/#:~:text=Researchers%20found%20that%20an%20increase,7%25%20reduction%20in%20death%20rates>, gwelwyd Tachwedd 2020.



Mae'n rhaid gwneud popeth y gellir ei wneud i hybu darpariaeth addysg o'r ansawdd uchaf. Mae'r papur safbwynt hwn yn darparu cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru, byrddau iechyd lleol a chyreff perthnasol.



## **Adran 1** Hyrwyddo angenrheidrwydd y radd nyrsio a sicrhau ansawdd uchel parhaus addysg nyrsio


### **Y radd nyrsio**

Mae cymhwyso fel nyrs yn golygu cyflawni rhaglen gradd israddedig (BSc Anrh. Nyrsio). Ar hyn o bryd, mae'n rhaid bod gan bob myfyriwr nyrsio dystiolaeth ei fod wedi cwblhau 2,300 awr o astudiaeth, 2,300 awr o arfer clinigol ac wedi cyflawni'r holl ofynion academaidd a chymhwysedd clinigol. Mae'n rhaid hefyd fod wedi llofnodi datganiad o iechyd da a chymeriad da gan y brifysgol cyn cael ei gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae'r rhaglen radd yn hanfodol i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau deallusol datrys problemau, sgiliau ymchwil, myfyrio a dysgu parhaus sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r crebwyll proffesiynol gofynnol i'w gymhwyso i wybodaeth ac arfer clinigol.

Yn aml, nid yw thybiaethau'r cyhoedd, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gwleidyddion yn cyd-fynd â realiti'r radd nyrsio. Mae camdybiaethau nad yw'r radd yn addysgu sgiliau ymarferol neu ei bod yn "rhy academaidd" i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gyffredin.

Mae'r camsyniadau niweidiol hyn yn aml yn gysylltiedig â thybiaethau nad ydynt wedi eu harchwilio nad yw nyrsio yn gofyn am feddwl deallusol ac nad yw nyrsio yn seiliedig ar ymchwil neu dystiolaeth.



Mae hyn yn cryfhau safbwynt y rhai sy'n gwneud penderfyniadau nad oes angen nyrsys ar gyfer llunio polisi ac nad oes angen lefel uchel o gyflog arnynt. Mae'r RCN Cymru yn herio'r safbwyntiau hyn yn gryf<sup>2</sup>

I hybu angenrheidrwydd y radd nyrsio a sicrhau ansawdd uchel parhaus addysg nyrsio, mae'n hanfodol bod y broses gomisiynu yn gwella i fodloni galw demograffeg newidiol y cyhoedd a darparu gweithlu ar gyfer y dyfodol.

I sicrhau ansawdd uchel parhaus addysg nyrsio y tu hwnt i'r cwrs gradd, mae'n bwysig bod y newid i gwricwlwm y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r rhaglen asesydd/goruchwylydd yn cael eu croesawu a'u gwerthuso i sicrhau bod y gweithlu yn cael addysg o'r ansawdd uchaf.

### **Profiad Myfyrwyr yn ystod COVID-19**

Bu angen i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru gymryd camau digynsail yn ystod pandemig COVID-19 i sicrhau bod capasiti i drin cleifion COVID-19.

Yn ystod holl gyfnod yr argyfwng COVID-19, gallai myfyrwyr nyrsio yn eu hail a thrydedd blwyddyn yng Nghymru ddewis ymestyn eu lleoliad clinigol, er enghraifft i uchafswm o 80% o'u hamser, (gan gadw 20% ar gyfer amser academiaidd) trwy ddarparu gofal rheng flaen. O wneud hynny, cawsant eu talu ar lefel band 3 neu 4 yn dibynnu ar yr amser a gwblhawyd ar eu rhaglen radd.

---

<sup>2</sup> Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, 2019. Nurse Staffing Levels (Wales) Act 2016: Perceptions of Patients and Patient Organisations, <https://www.rcn.org.uk/wales/get-involved/safe-and-effective-care>, gwelwyd Tachwedd 2020.






Nid oedd eu cwrs gradd wedi'i ohirio yn ystod y cyfnod hwn – yn hytrach, mae'r brifysgol, GIG Cymru (a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel y rheoleiddiwr proffesiynol) wedi cydnabod bod yr amser a dreuliwyd yn gweithio yn glinigol yn cyfrif tuag at yr oriau lleoliad clinigol gofynnol ar gyfer y radd. Hefyd, cynigiwyd y cyfle i fyfyrwyr â 6 mis neu lai cyn cymhwyso yr opsiwn o dreulio rhan olaf eu rhaglen mewn lleoliad.

Dyluniwyd, arweiniwyd a gweithredwyd y broses hon yn genedlaethol gan Gydwasanaethau GIG Cymru sy'n rhan o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae bwriad buddiol y broses hon yn eglur: mae'n ymdrech i sicrhau na fydd angen i fyfyrwyr nyrsio weithio mwy i "ddal i fyny" â'u cyrsiau gradd ac na fydd Cymru yn dioddef o garfan o "nyrsys coll" ar ôl i COVID-19 ostegu. Fodd bynnag, gweithredwyd y broses hon yn wael yn ymarferol, gan greu mwy o ddryswch, gorbryder a straen nag yr oedd ei angen.

Derbyniodd RCN Cymru lawer iawn o alwadau gan fyfyrwyr pryderus. Cafodd RCN Cymru adborth uniongyrchol hefyd gan ein haelodau sy'n ddarlithwyr nyrsio a oedd hefyd o'r farn bod y broses weithredu yn wallus a dryslyd.

Mae'r RCN hefyd yn ymwybodol bod rhai myfyrwyr nyrsio wedi dioddef oedi cyn cyflwyno contractau a arweiniodd wedyn at oedi i daliadau. Achosodd hyn galedi i'r myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt. Gofynnodd RCN Cymru o'r Cydwasanaethau ymchwilio i'r mater hwn fel mater o frys.

Rhoddodd myfyrwyr nyrsio gymorth aruthrol i ymateb Cymru i COVID-19, er gwaethaf dryswch ynghylch polisïau a chanllawiau.



Cynorthwyodd myfyrwyr nyrsio i drin cleifion a oedd yn achosion posibl neu a gadarnhawyd o COVID-19. Mae'n bwysig ystyried yr effaith y gallai hyn fod wedi ei chael ar iechyd y myfyrwyr hyn, yn enwedig ar orbryder unigolion.

Dylid cynnig ôl-drafodaeth i fyfyrwyr nyrsio i drafod eu profiad unigryw eu hunain yn ystod yr ymateb i COVID-19.


Mae'n bwysig ystyried effaith COVID-19 ar ddarpar fyfyrwyr nyrsio. Mae'r broses o recriwtio i gyrsiau gradd nyrsio yng Nghymru wedi parhau, ond efallai y bydd goblygiadau o ran myfyrwyr Safon Uwch a myfyrwyr Mynediad y bydd ganddynt raddau disgwylidig erbyn hyn a allai effeithio ar y cynigion a wneir, neu ar rai yn bodloni'r meini prawf mynediad mewn rhai achosion.

## **GWEITHREDU**

Mae'n rhaid cynorthwyo myfyrwyr i ailgychwyn eu hastudiaethau ac felly mae'n rhaid i adnoddau dynol digonol fod ar gael yn y lleoliadau academiaidd a chlinigol.

## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr wedi dioddef niwed addysgol neu ariannol o ganlyniad i'w cymorth mewn ymateb i COVID-19 a sicrhau bod unrhyw ddyled benthyciad cynhaliath yn cael ei hepgor.



## Dysgu ar-lein

Mae dysgu ar-lein yn caniatáu i unigolyn astudio o bell heb gyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd â'i diwtor. Mae gradd nyrsio israddedig dysgu ar-lein yn golygu ymgymryd yn bennaf â gweithgareddau rhyngweithiol ar-lein fel sain a fideos. Darperir cymorth tiwtorial trwy amgylchedd rhith-ddysgu hefyd ac mae'n dal yn ofynnol i fyfyrwyr wneud gwaith clinigol ymarferol.


Bu cynnydd i'r defnydd o ddysgu ar-lein yn ystod pandemig COVID-19. Cafodd carfan Mawrth/Ebrill 2020 o fyfyrwyr nyrsio yng Nghymru ei sesiynau sefydlu yn rhithwir ac addaswyd eu cyrsiau yn briodol. Bwriedir gwneud yr un fath ar gyfer carfan Medi 2020. Dywedodd Prifysgol Abertawe nad ydynt yn bwriadu ar hyn o bryd ailagor eu campws tan fis Tachwedd 2020 a gellid ymestyn hyn i fis Ionawr 2021 hyd yn oed.

### **GWEITHREDU**

Dylai AaGIC sicrhau bod Prifysgolion yn cael eu cefnogi wrth drosglwyddo i ddysgu ar-lein yn ystod pandemig COVID-19 ac wrth drosglwyddo i ddysgu cyfunol ar ôl pandemig COVID-19.

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru ac ysgolion Nyrsio lansio adolygiad o'r defnydd o ddysgu ar-lein yn ystod pandemig COVID-19 i werthuso ei lwyddiant. Dylai hyn gynnwys safbwynt y myfyrwyr ar y defnydd o ddysgu o bell.



## GWEITHREDU

Yn y dyfodol, mae'n rhaid cefnogi prifysgolion i ddatblygu dull cyfunol o baratoi rhaglenni addysg paratoi nyrsys.

### Addysg nyrsys fel proffesiwn


Mae addysg nyrsys fel proffesiwn yn cynnig cyfle i nyrs ddarparu addysg cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru mewn Prifysgol.

I lwyddo yn y swydd, mae'n ofynnol i ddarlithydd nyrsio fod ar gofrestr broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bod wedi gweithio mewn meysydd lle byddai myfyrwyr wedi cael profiad ymarferol.

Mae'n ofynnol i ddarlithwyr nyrsio ddatblygu'r cwricwlwm, cyflwyno darlithoedd, seminarau, sesiynau tiwtorial, graddio gwaith cwrs, marcio papurau arholiad; ymweld â myfyrwyr ar leoliadau; a darparu cymorth bugeiliol. Mae tasgau gweinyddol, fel gweinyddiaeth myfyrwyr, rhaglenni sefydlu a chymryd rhan mewn pwyllgorau a byrddau yn llenwi llawer iawn o amser hefyd.

Mae rhai nyrsys yn dewis symud i brifysgol yn amser llawn ond weithiau ceir cyfleoedd ar gyfer penodiadau ar y cyd, rhwng ymarfer clinigol a phrifysgolion.

Mae'r rhain yn cynnig y cyfle i nyrsys gadw eu swydd glinigol gan reoli llwyth gwaith academiaidd priodol. Mae hyn yn caniatáu i unigolion gadw hygredd clinigol ac addysgu'r wybodaeth ddiweddaraf i nyrsys dan hyfforddiant.



Mae cyfleoedd ymchwil yn aml yn rhwystr i ddatblygiad proffesiynol parhaus darlithwyr nyrsio. Mae prifysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i staff academiaidd wneud gwaith ymchwil gyda'r nod o ychwanegu at gorff o wybodaeth, codi proffil nyrsio, cael eu cyhoeddi mewn llyfrau/siwrnalau ysgolheigaidd cenedlaethol a rhyngwladol a'u rhannu drwy gyflwyniadau mewn cynadleddau. Bydd hyn hefyd yn arwain at godi proffil yr adran a'r brifysgol. Yn ogystal ag ychwanegu at flaenoriaethau cystadleuol presennol i ddarlithydd nyrsio, mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ddarlithydd nyrsio wneud gwaith ymchwil yn hynod gystadleuol a chyfyngedig.

I ddarlithydd nyrsio wneud gwaith ymchwil, mae angen cael gafael ar gyllid allanol ar gyfer prosiectau. Mae'n bwysig bod cynghorau ymchwil yn gwerthfawrogi crefft a gwyddoniaeth nyrsio i sicrhau nad yw ymchwil nyrsio yn eilradd i ymchwil feddygol.

Yn ogystal ag ymestyn y blaenoriaethau proffesiynol presennol sy'n gwrthdaro i ddarlithydd nyrsio, mae'r galw i wneud gwaith ymchwil yn rhoi straen ar ymrwymadau personol hefyd.

Ymchwiliodd Snelgrove a James (2011) i ganfyddiadau graddedigion o waith ymchwil. Tynnodd eu canfyddiadau sylw at y ffaith bod rhwystrau sylweddol o ran trefn a chymhelliad i wneud gwaith ymchwil ymhlith nyrsys<sup>3</sup>. Y prif rwystr oedd diffyg amser, ac roedd gwaith ymchwil yn flaenoriaeth isel ym mywyd gwaith prysur nyrs.

---

<sup>3</sup> Snelgrove a James (2011), 'Graduate Nurses' and midwives' perception of research', *Sage Journals*, <https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/1744987110387484> gwelwyd Tachwedd 2020



Roedd y rhai a gymerodd ran yn aml yn teimlo bod yn rhaid iddynt gydbwysu gwaith ag anghenion teuluol ac roedd gwaith ymchwil yn aml yn cael ei anghofio gan ei fod yn flaenoriaeth isel. Ar ôl ei nodi'n rhwystr ar gamau cynnar gyrfa mewn nyrsio, mae'n bwysig nodi bod y rhwystr hwn yn parhau trwy gydol gyrfaedd nyrsio, a bod darlithwyr nyrsio hefyd yn dioddef blaenoriaethau personol a phroffesiynol sy'n gwrthdaro.

I sicrhau lle i waith ymchwil nyrsio yn y byd academaidd, mae'n bwysig bod newid diwylliannol a sefydliadol. Dylid ystyried gwaith ymchwil yn rhan annatod o ddatblygu'r proffesiwn a dylai gael ei hyrwyddo yn gynnar mewn addysg a gyrfaedd nyrsio. Ar hyn o bryd, ceir diffyg seilwaith ar gyfer gwaith ymchwil clinigol nyrsio yng Nghymru tra bod gan yrfaedd academaidd clinigol yng Nghymru hanes maith ym maes meddygaeth; mae cyfuno gwaith clinigol ac academaidd yn arfer cyffredin i feddygon yn rhyngwladol. Mae'r swyddi hyn yn llawer llai cyffredin ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd.

Gan yr ystyrir mai darparu gofal ac eirioli ar ran y claf yw'r swyddogaeth nyrsio draddodiadol ac y portreadir ymchwil nyrsio yn aml fel rhywbeth nad yw'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar glaf unigol, yn aml nid yw ymchwil nyrsio clinigol yn cael ei werthfawrogi i'w llawn botensial.

I sefydlu'r newid hwn, dylid cynyddu nifer yr academyddion clinigol ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd. Ymchwilydd iechyd sy'n weithredol yn glinigol yw academydd clinigol.



Mae'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gofal wrth ymchwilio yn gyfochrog i ffyrdd newydd o sicrhau gwell canlyniadau i'r cleifion y mae'n eu trin ac yn gofalu amdanynt<sup>4</sup>. Ceir nifer o fanteision o waith ymchwil trwy swyddogaethau academyddion clinigol, a hynny i gleifion, gwasanaeth a'r unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwell canlyniadau clinigol, mwy o opsiynau o driniaeth, mwy o ofal yn seiliedig ar dystiolaeth, defnydd effeithiol o adnoddau, mwy o enw da, cynhyrchu incwm a mwy o ymgysylltiad â staff<sup>5</sup>.

Mae'r swyddogaeth ddeuol hefyd yn caniatáu i'r academydd clinigol gyfuno ei yrfaedd clinigol ac ymchwil yn hytrach na gorfod dewis rhwng y ddau.

Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac AaGIC groesawu swyddogaeth yr academydd clinigol fel modd o ehangu galluoedd ymchwil ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd.

### **GWEITHREDU**


Dylai AaGIC a phrifysgolion gydweithio i sicrhau cynnydd yn nymunoldeb a nifer y penodiadau ar y cyd a darlithwyr nyrsio sy'n ymweld.

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru a phrifysgolion greu cyfleoedd ar gyfer ymchwil clinigol i ddarlithwyr nyrsio wella arfer proffesiynol parhaus.

<sup>4</sup> Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, 2016, Building a research career handbook

<sup>5</sup> AUKUH Clinical Academic Role Development Group, 2016. *Transforming healthcare through clinical academic roles in nursing, midwifery and allied health professions: A practical resource for healthcare providers organisations*  
<https://www.medschools.ac.uk/media/2325/aukuh-transforming-healthcare.pdf>, gwelwyd Tachwedd 2020



### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a GIG Cymru hyrwyddo a chefnogi swyddogaeth yr academydd clinigol ym maes nyrsio.

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer yr ymgynghorwyr nyrsio gan mai rhan o'u swyddogaeth yw gwneud gwaith ymchwil clinigol.

### **GWEITHREDU**

Dylai cynghorau, byrddau a phwyllgorau ymchwil ac ariannu roi ystyriaeth deg a chyfiawn i geisiadau ymchwil nyrsio.

### **GWEITHREDU**

Dylai cynghorau, byrddau a phwyllgorau ymchwil ac ariannu sicrhau bod nyrsys yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a GIG Cymru ynghyd â chyrff ariannu geisio cefnogi'r swyddogaethau hyn yn ariannol.





## **Ymateb i newidiadau i'r cwricwlwm a sicrhau ansawdd yr addysg**

Cyflwynodd y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth newidiadau i safonau addysg yn 2018. Mae Grŵp Nyrso a Bydwreigiaeth Cyn-cofrestru Cymru Gyfan yn arwain y dull cenedlaethol 'Unwaith i Gymru 2020' ar gyfer gweithredu. Mae cynrychiolaeth o RCN Cymru yn y grŵp hwn.

Bydd y dull cenedlaethol Unwaith i Gymru 2020 yn cael ei weithredu'n llawn ym mis Medi 2020.

### **GWEITHREDU**

Yn gyntaf ac yn anad dim, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, Grŵp Nyrso a Bydwreigiaeth Cyn-cofrestru Cymru Gyfan a rhanddeiliaid roi amser i'r newidiadau i'r cwricwlwm ffynnu gan fonitro cynnydd ac ymateb i ymholiadau gweithlu ar yr un pryd.

### **GWEITHREDU**

Dylid ystyried effaith COVID-19, a rhoi cymorth i Fyrddau Iechyd Lleol i sicrhau bod y newidiadau i'r cwricwlwm yn cael eu gweithredu a'u cyflawni'n llwyddiannus.

### **GWEITHREDU**

Dylai Byrddau Iechyd Lleol, Grŵp Cyn-cofrestru Cymru Gyfan a rhanddeiliaid allweddol eraill sicrhau trosglwyddiad didrafferth drefniadau goruchwyllo ac asesu ledled Cymru.



## GWEITHREDU


Dylai Grŵp Nyrso a Bydwreigiaeth Cyn-cofrestru Cymru Gyfan barhau i ddilyn dull cenedlaethol sy'n cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaethau allweddol i gyd-lunio a monitro elfennau newydd y rhaglen, cynnwys y cwricwlwm a threfn lywodraethu'r dysgu ymarfer a dulliau cymorth.

### Trefniadau asesu/ goruchwyllo a sicrhau ansawdd

Mae cwricwlwm newydd y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth wedi disodli 'mentoriaid a mentoriaid cadarnhau' â 'goruchwylwyr ymarfer, aseswyr ymarfer ac aseswyr academiaidd'

Mae RCN Cymru yn gefnogwr brwd o fentoriaeth a goruchwyliaeth glinigol fel ffordd o gefnogi'r gweithlu. Goruchwyllo clinigol ddylai fod y ffordd y mae'r gweithlu yn parhau i ddeall a chyflawni eu rhwymedigaethau personol a phroffesiynol a'u hymrwymiad i greu diwylliant gofal cadarnhaol a thosturiol.

Mae'n angenrheidiol bod yr holl oruchwylwyr ac aseswyr ymarfer yn cael paratoad a chymorth priodol i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol a phrofiad sy'n berthnasol i'r myfyriwr/hyfforddai a'r maes ymarfer y maent yn ei oruchwyllo. Er mwyn i asesydd/goruchwyllydd ymarfer gyflawni ei swyddogaeth, mae'n bwysig bod ganddo ddigon o amser i wneud goruchwyliaeth addysg glinigol yn flaenoriaeth.



Dylai ansawdd amgylcheddau dysgu ymarfer i fyfyrwyr fod yn flaenoriaeth ar y cyd ar lefel Bwrdd Iechyd a Sefydliad Addysg Cymeradwy. Dylai adrodd rheolaidd i'r Bwrdd Iechyd gynnwys metrigau lleoliad a data ynglŷn â chydymffurfriad aseswyr/goruchwylwyr â Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Dylai adroddiadau gyfeirio at yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a dadansoddiadau lleol o werthusiadau lleoliadau myfyrwyr nyrsio gan gynnwys pryderon a godir gan fyfyrwyr ynglŷn ag ansawdd gofal ac aseswyr/goruchwylwyr.

### **GWEITHREDU**


Dylai ansawdd amgylcheddau dysgu ymarfer i nyrsys barhau i fod yn gyfrifoldeb ar y cyd i fyrddau iechyd a Sefydliadau Addysg Cymeradwy

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru geisio sefydlu dull i alluogi cymryd rhan mewn lleoliadau gofal cymunedol a chymdeithasol.

### **GWEITHREDU**

Dylai Sefydliadau Addysg Cymeradwy ynghyd ag AaGIC werthuso newidiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'r broses aseswyr/goruchwylwyr a gwneud argymhellion ar gyfer modelau'r dyfodol.




## GWEITHREDU

Dylai grŵp addysg nyrsio Cyn-gofrestru Cymru Gyfan, mewn cydweithrediad ag AaGIC barhau i ddatblygu canllawiau sy'n paratoi aseswyr a goruchwylwyr ar gyfer eu swyddogaethau. Gallai hyn fanteisio ar ganllawiau presennol gan Fforwm Addysg Nyrsio'r Coleg Brenhinol (2017).

### Y Gymraeg mewn addysg uwch

Mae'n ddymunol bod â gweithlu dwyieithog er mwyn darparu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd da yng Nghymru. Mae'r iaith a ddefnyddir i ddarparu gofal yn hollbwysig i'r profiad o ofal (er enghraifft urddas a thosturi), ansawdd gofal clinigol a chanlyniadau iechyd i'r claf. Gwellir gweld pwysigrwydd iaith y gofal i ganlyniadau iechyd mewn meysydd fel therapi lleferydd a chwmsela ond mae'r un mor bwysig pan fo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dibynnu ar leferydd i gyfathrebu â'r claf a'r teulu i wneud asesiad, esbonio triniaeth neu drefn feddyginiaeth neu i geisio cael caniatâd i gymryd camau penodol.

Mae dros 25,000 o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd yng Nghymru yn aelodau o RCN Cymru. Mae traean o'r aelodau hyn yn siarad Cymraeg. Er mwyn i'n haelodau deimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg yn broffesiynol a chefnogi cydweithwyr i wneud hynny, mae'n rhaid cynyddu addysg nyrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r adnoddau addysgol sydd ar gael yn y Gymraeg.



Byddai hyn yn cynyddu rhuglder a hyder proffesiynol ac o fudd i'r gweithlu a'r claf. Mae'n ymarferol, yn ddymunol ac yn rhesymol felly y dylai AaGIC ddefnyddio'r broses gomisiynu i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai Cynllun Tymor Canolig Integredig y GIG eisoes, yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, fod yn nodi'r anghenion o ran sgiliau Cymraeg yn eu gweithlu. Dylai'r angen hwn gael ei adlewyrchu wedyn yn y broses comisiynu addysg. Dylai'r nod fod i gynyddu cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r cwrs gradd neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylid darparu cymorth hefyd i ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig darpariaethau cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn sicrhau cynaliadwyedd proffesiynol parhaus y Gymraeg mewn addysg nyrsio uwch.


## **GWEITHREDU**

Dylai AaGIC ddefnyddio'r broses gomisiynu i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Technoleg Efelychu a Digidol**

Mae technoleg ddigidol yn ganolog i wella ansawdd gofal cleifion pa un a yw hyn drwy e-iechyd neu wybodeg iechyd.

Mae gofal nyrsio yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae angen i weithwyr nyrsio proffesiynol fod yn ymwybodol o waith ymchwil cyfoes gan gynnwys technolegau casglu data sy'n dod i'r amlwg.



Mae angen i arweinwyr nyrsio sicrhau eu bod yn gweithio gyda datblygwyr systemau i sicrhau bod systemau newydd yn cael eu cynllunio a'u gweithredu drwy gydnabod yr angen nyrsio.

Mae wedi'i hen sefydlu bod technoleg efelychu yn hanfodol i ddatblygiad addysg nyrsio. Mae cyfrifoldeb cyntaf yr addysgwr i'r myfyriwr mewn lleoliad efelychu clinigol. Trwy dynnu'r claf o'r amgylchedd efelychu, gall y myfyriwr ymarfer, gwneud camgymeriadau a dysgu mewn amgylchedd diogel wedi'i reoli heb unrhyw effeithiau niweidiol ar gleifion.


Gall y myfyriwr gofnodi, codio a gwylio'i efelychiad gydag aelod o'r tîm addysg i ddarganfod ei gryfderau a'i wendidau.

Mae'r Alban yn arwain y ffordd o ran addysg efelychu trwy Ganolfan Efelychu Genedlaethol ac ystafell efelychu symudol. Profwyd bod y defnydd o efelychu yn cynyddu hyder a sgiliau'r gweithlu clinigol.

Dylai fod mwy o fynediad at efelychu ledled Cymru i'r holl fyfyrwyr nyrsio a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'n bwysig bod efelychu ar gael ledled Cymru i sicrhau cysondeb o ran cyfleoedd addysgol. Byddai angen ystyried lleoliad unrhyw ganolfan efelychu neu ystafell symudol i sicrhau eu bod ar gael ac yn cael eu defnyddio mewn modd cyson.

## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu canolfan efelychu genedlaethol gan gynnwys ystafell efelychu symudol i sicrhau y gall myfyrwyr nyrsio a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru gael mynediad at yr addysg orau sydd ar gael beth bynnag fo'r rhwystrau daeryddol.



## **GWEITHREDU**

Dylai addysg efelychu fod ar gael i'r holl fyfyrwyr nyrso ledled Cymru

## **GWEITHREDU**


Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Grŵp Nyrso a Bydwreigiaeth Cyn-cofrestru Cymru Gyfan, adolygu sut y defnyddir technoleg ddigidol ym maes addysg nyrso, gyda phwyslais ar ba un a yw'r cwricwlwm cyn-cofrestru presennol yn addas i fodloni gofynion gweithlu'r dyfodol.

## **Ehangu mynediad at leoliadau clinigol**

Mae lleoliadau clinigol yn rhan annatod o'r radd nyrso. Mae lleoliadau yn cynnig y cyfle unigryw i fyfyrwyr nyrso gaffael gwahanol sgiliau, gwerthoedd ac ymddygiadau trwy ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion trwy gydol eu taith addysg.

Mae'r RCN Cymru yn cefnogi'n frwd y cam i sicrhau bod amrywiaeth o leoliadau clinigol ar gael i fyfyrwyr nyrso mewn gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol. Byddai ehangu capasiti lleoliadau clinigol yn galluogi darparwyr addysg uwch i gynyddu niferoedd myfyrwyr.

Byddai cynyddu amrywiaeth lleoliadau clinigol yn creu lluo o gyfleoedd ychwanegol i fyfyrwyr nyrso, gan gynnwys gwella iechyd a llesiant trwy leoliadau rhagnodi cymdeithasol ac iechyd galwedigaethol.



## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru lansio adolygiad Cymru gyfan o gapasiti lleoliadau gyda'r bwriad o sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfleoedd lleoliad a chymaint o amrywiaeth ohonynt â phosibl.

## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ehangu cyfleoedd lleoliad mewn amgylcheddau sylfaenol, cymunedol, cartref gofal, gofal cymdeithasol ac mewn lleoliadau sector annibynnol a thrydydd sector eraill.





## Adran 2 Ehangu mynediad i fyfyrwyr at y rhaglen gradd nyrsio

### Prentisiaethau

Mae prentisiaethau yn galluogi'r myfyriwr i weithio a chael ei dalu wrth astudio ar gyfer y radd nyrsio yn rhan-amser. Mae hwn yn opsiwn deniadol i lawer. Fodd bynnag, nid oes unrhyw lwybr prentisiaeth eglur ar gyfer nyrsio yng Nghymru ar hyn o bryd.


Mae llwybrau amgen yn bodoli i'r rhai sydd eisoes wedi'u cyflogi fel gweithwyr cymorth gofal iechyd gan GIG Cymru, ond yn aml dim ond nifer cyfyngedig o leoedd wedi'u hariannu sydd ar gael.

Mae prentisiaeth yn sicrhau bod potensial y gweithlu mor fawr â phosibl ac yn caniatáu i'r prentis ymgysylltu ag aelodau staff profiadol sy'n gallu trosglwyddo sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau.

Dylai Cymru archwilio ffyrdd o ehangu'r mynediad i'r proffesiwn nyrsio drwy ddull cenedlaethol o ymdrin â phrentisiaethau, gan gynnig mynediad uniongyrchol i'r model hwn i unigolion wneud cais iddo gan gynnwys trefniadau a gefnogir mewn cartrefi gofal.

### GWEITHREDU

Llunio llwybr prentisiaeth nyrsio penodol yng Nghymru a chynyddu'r nifer sy'n gallu manteisio ar y llwybr hwn.



## **GWEITHREDU**

Galluogi mynediad uniongyrchol at y brentisiaeth, hynny yw cynnig cyflogaeth fel gweithiwr cymorth gofal iechyd yn rhan o'r pecyn hwn.

## **GWEITHREDU**

Dylai fod fframwaith cenedlaethol wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r datblygiadau hyn.

### **Cynllun Cadetiaid Nyrso Tywysog Cymru**

Datblygwyd Cynllun Cadetiaid Nyrso Tywysog Cymru yn 2017 ac fe'i lansiodd yn 2019. Nod y Cynllun yw paratoi cadetiaid ar gyfer bywyd, trwy ddarparu sgiliau a dulliau hanfodol iddynt ac uchelgais i lwyddo. Nod y cynllun hefyd yw paratoi cadét ar gyfer gyrfa bosibl ym maes nyrso a gofal iechyd.

Mae'r rhaglen, a hyrwyddir gan RCN Cymru, yn cyfuno 105 awr o ddysgu dan arweiniad, gan gynnwys modiwlau dysgu a lleoliad arsylwi clinigol yn eu rhanbarth gofal iechyd lleol.

Treialwyd y cynllun cadetiaid yng Nghymru mewn cydweithrediad â Chymdeithasau Llu Cadetiaid y Fyddin yng Nghymru.

Ar ôl i gadét lwyddo yn y cynllun, mae prifysgolion Cymru wedi ymrwmo i sicrhau cyfweiliad i gadetiaid llwyddiannus astudio nyrso, ac mae byrddau iechyd lleol yn sicrhau cyfweiliad i'r cadetiaid weithio fel gweithiwr gofal iechyd cronfa.



Mae'r rhaglen yn para dwy flynedd a hanner ac yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn ehangu mynediad at nyrsio. Mae'r cynllun yn annog pobl ifanc 16-25 oed, demograffig sy'n aml yn cael ei fethu gan y cwrs gradd prifysgol tair blynedd traddodiadol, i swyddi yn y GIG ac ymlaen i lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae posibilrwydd y bydd y cynllun yn cynorthwyo yn fawr y gallu i gadw gweithlu'r GIG gan gynnig cyfle ystyrlon i'r to iau gyfrannu at y GIG a'r gymdeithas ehangach.

### **GWEITHREDU**


Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru fel cyfle cyfartal i gael mynediad at yrfa nyrsio

### **GWEITHREDU**

Dylai AaGIC weithio gyda RCN Cymru i sicrhau bod y cynllun yn cynnig arfer gorau yn seiliedig ar dystiolaeth cyfoes i gadetiaid.

### **GWEITHREDU**

Dylai byrddau iechyd lleol ehangu mynediad at leoliadau clinigol i gadetiaid a chynnig cyfleoedd mewn lleoliadau cymunedol a gofal cymdeithasol.



## Adran 3 Sicrhau cymorth ariannol rhagorol a hyblygrwydd i fyfyrwyr nyrsio

### Cymorth i fyfyrwyr nyrsio


29 yw oedran cyfartalog myfyriwr nyrsio ac maent yn llawer mwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu na myfyrwyr eraill. Canfu arolwg RCN fod gan 31% blant dibynnol, bod 10% yn rhieni sengl a bod 23% yn gofalu am berthynas sâl, anabl neu oedrannus<sup>6</sup>.

Cydnabuwyd yn yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru (2016), dan yr enw 'Adolygiad Diamond' fod myfyrwyr sy'n rhieni yn wynebu heriau arbennig os yw eu plant o oedran ysgol neu iau<sup>7</sup>. Nododd yr Adolygiad yr heriau cymdeithasol ac ariannol i fyfyrwyr sy'n rhieni gan argymhell bod Llywodraeth Cymru, trwy CCAUC, yn gweithio gyda phrifysgolion ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i sicrhau cymorth ariannol priodol i helpu myfyrwyr sy'n rhieni i gyfuno eu hastudiaethau â'u chyfrifoldebau teuluol<sup>8</sup>

<sup>6</sup> Coleg Nyrsio Brenhinol, 2018. Consultation response to the UK Department of Health, 'changing how healthcare education is funded'.

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Diamond, 2016, *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*, [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adroddiad-terfynol\\_1.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adroddiad-terfynol_1.pdf) gwelwyd Tachwedd 2020

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, Diamond, 2016, *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*, [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adroddiad-terfynol\\_1.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adroddiad-terfynol_1.pdf) gwelwyd Tachwedd 2020




Cydnabu Adolygiad Diamond yr angen i roi hyblygrwydd i fyfyrwyr reoli eu cyllid ac, i rai myfyrwyr oresgyn anawsterau ariannol sy'n gysylltiedig ag addysg uwch. Daw hyn ar ffurf system ariannu gyfannol, â symudiad oddi wrth ffi y cwrs a mwy tuag at gostau byw, â chymorth cyflog byw gwirioneddol<sup>9</sup>.

Mae myfyrwyr nyrso yn wahanol i fyfyrwyr eraill. Fel y nodir uchod, mae myfyrwyr nyrso yn fwy tebygol o fod â gofynion gofalu a bod angen cymorth ariannol. Hefyd, i'r myfyriwr nyrso iau, mae heriau ariannol yn cyflwyno'u hunain ar ffurf byw yn annibynnol am efallai'r tro cyntaf yn eu bywydau. Efallai y bydd angen i fyfyriwr nyrso rentu tŷ am flwyddyn gyfan oherwydd natur y cwrs, tra byddai angen i fyfyrwyr eraill rentu tŷ yn ystod y flwyddyn academaidd yn unig cyn dychwelyd i'w cartref parhaol. Dylid rhoi mwy o gymorth ariannol i fyfyrwyr nyrso i adlewyrchu gofynion y cwrs ac i gynorthwyo eu costau byw.

Darperir bwrsariaeth y GIG gan Wasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr y GIG. Gall myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau penodol sy'n arwain at gofrestrriad fel gweithiwr iechyd proffesiynol wneud cais i'r GIG am gyllid i helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw. Trwy hyn, bydd y GIG yn talu ffioedd dysgu myfyrwyr nyrso yn llawn. Nid oes yn rhaid ad-dalu'r rhain.

---

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, Diamond, 2016, *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*, [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adroddiad-terfynol\\_1.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adroddiad-terfynol_1.pdf) gwelwyd Tachwedd 2020




Os bydd myfyrwyr yn ymrwmo i weithio i GIG Cymru am ddwy flynedd, byddant yn derbyn bwrsariaeth nad yw'n dibynnu ar brawf modd o £1,000 a gallant wneud cais i dderbyn grant sy'n dibynnu ar brawf modd a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd. Gallant hefyd wneud cais am fenthyciad i fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Ceir manteision i fwrsariaeth myfyrwyr GIG Cymru o safbwynt y myfyriwr a'r GIG. Mae'n sicrhau bod gan nyrsys dan hyfforddiant gyswllt â GIG Cymru o gychwyn cyntaf eu hastudiaethau gan symleiddio'r broses. Yn ogystal ag annog a chymell pobl i astudio yng Nghymru, mae'r fwrsariaeth yn creu perthynas rhwng yr ymgeisydd a GIG Cymru sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd yn aros. Pan ddiddymwyd y fwrsariaeth nyrsio i fyfyrwyr yn Lloegr gan Lywodraeth y DU, bu gostyngiad sylweddol o 30% yn nifer yr ymgeiswyr i gyrsiau nyrsio yn Lloegr<sup>10</sup>.

Fodd bynnag, mae myfyrwyr nyrsio yng Nghymru yn dal i gael trafferth yn cael deupen llinyn ynghyd gyda'r fwrsariaeth. Mae myfyrwyr nyrsio yn unigryw yn eu hastudiaethau gan fod yn rhaid iddynt gwblhau o leiaf 4,600 awr o ddysgu theori a lleoliad yn ystod eu gradd ac astudio 45 wythnos y flwyddyn. Prin yw'r amser y mae hyn yn ei adael i gael cyflogaeth ychwanegol, ac mae aelodau'r RCN wedi dweud eu bod yn gwneud hyn, i gefnogi eu hunain yn ariannol. Gall costau trafndiaeth fod yn faich hefyd

---

<sup>10</sup>Coleg Nyrsio Brenhinol, #FundOurFuture Nurses, <https://www.rcn.org.uk/get-involved/campaign-with-us/student-funding-fund-our-future>, gwelwyd Tachwedd 2020.




Felly, gallai cynyddu'r fwrariaeth i grant cynhaliaeth wedi'i ariannu yn llawn neu gynyddu mynediad at fenthyciadau cynhaliaeth ychwanegol (ond dewisol) fod yn fwy defnyddiol i lawer o fyfyrwyr nyrsio yn y tymor hir, gan ganiatáu iddynt gael gafael ar gyllid ychwanegol a chanolbwyntio yn llawn ar eu hastudiaethau. Mae'n bwysig bod Cymru, yn ogystal â denu ymgeiswyr, hefyd yn ei gwneud yn gynaliadwy iddynt gwblhau eu hastudiaethau, heb orfod gadael oherwydd cyfyngiadau ariannol.

Ceir opsiynau eraill os na fydd myfyrwyr nyrsio yn dymuno dewis bwrsariaeth y GIG. Er bod y fwrariaeth yn cynnig cyswllt i fyfyrwyr â'r GIG o gychwyn cyntaf eu cwrs, mae'n sefydlog. Nid yw'r swm a ddarperir i'r myfyrwr yn newid gyda chwyddiant. Mae hyn yn golygu bod angen ailwerthuso ac ailnegodi'r fwrariaeth yn gyson yn unol â chwyddiant a chostau byw.

Dylai'r fwrariaeth gynyddu yn awtomatig gyda chwyddiant. Byddai hyn yn lleihau'r angen i ailwerthuso ac ailnegodi telerau'r fwrariaeth, a fyddai o fudd i'r Llywodraeth ac i bartneriaid y GIG.

Dylid nodi hefyd nad yw Cymru yn elwa ar fanteision llawn y penderfyniad i gadw'r fwrariaeth. Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r penderfyniad hwn am flwyddyn neu ddwy flynedd ar y tro. Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru rownd arall o 'ymgysylltu' ar y system yn y dyfodol dim ond i ohirio'r broses tan 2021 (ar ôl yr etholiad nesaf). Mae'r ansicrwydd hwn yn golygu bod darpar fyfyrwyr yng Nghymru yn ddryslyd ac yn ddigalon.

Hefyd, ni all y brifysgol sy'n cynllunio ei chyllid fod yn sicr ynghylch system y dyfodol. Mae hyn yn cael effaith negyddol wrth i adrannau fethu â buddsoddi mewn nyrsio ac ystyried yn hytrach gwneud toriadau i'r ddarpariaeth.



## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gadarnhau trefniadau cymorth nyrsio yn y dyfodol ar gyfer y degawd nesaf i roi sefydlogrwydd i'r system.

## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu faint o arian a ddarperir drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru iddo dalu costau byw yn fwy priodol.


## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid cynhaliaeth ychwanegol ar gael ar sail benthyciad y gall myfyrwyr wneud cais amdano os byddant yn dymuno gwneud hynny.

## **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at wybodaeth cwbl eglur, gan gynnwys enghreifftiau o'r holl opsiynau cymorth a hefyd sut a phryd y byddai'r rhain yn cael eu had-dalu, er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys ynghylch yr opsiynau gorau.





## **Adran 4** Sicrhau cynaliadwyedd ariannol a phroffesiynol nyrsio yn y sector addysg uwch

### **Y broses gomisiynu**

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu lleoedd myfyrwyr nyrsio drwy'r broses comisiynu addysg a arweinir gan AaGIC. Mae RCN Cymru yn eglur bod cael corff cenedlaethol fel AaGIC yn gyfrifol am y broses hon yn cynnig mantais eglur i ofal cleifion. Fodd bynnag, mae RCN Cymru wedi bod yn eglur hefyd y dylai'r broses fod yn dryloyw a chynnwys rhanddeiliaid yn briodol. Mae'r broses ar hyn o bryd yn gwbl aneglur. Cyhoeddwyd ffigurau mis Ionawr 2020, er enghraifft, gan Lywodraeth Cymru ac nid gan AaGIC.

Mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi darparu strategaeth gweithlu genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ond nid yw wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Darparodd RCN Cymru sylwadau ar y strategaeth.

Byddai proses eglur a thryloyw i rhanddeiliaid gyfrannu tystiolaeth yn cynyddu hyder yn y broses a chanlyniadau ac yn gwella ansawdd a chadernid y deilliannau a'u perthynas ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

Mae'r broses gomisiynu genedlaethol yn sicrhau bod cyflenwad hysbys a sefydlog o nyrsys i system gofal iechyd Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod dull arall o annog darpariaeth nyrsio cyn-cofrestru yng Nghymru. Byddai hyn o fudd i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cynnig llwybr ariannu arall ar gyfer y sector.



Mae Prifysgol Glyndŵr yn cynnig lleoedd heb eu comisiynu i fyfyrwyr nyrso ar hyn o bryd. Byddai'n werth archwilio a allai prifysgolion gynnig cymysgedd o leoedd wedi'u comisiynu a heb eu comisiynu yn y dyfodol.


Mae'r cyflenwad o leoliadau clinigol yn gyfyngedig. Mae'n bosibl na fyddai digon o leoliadau clinigol i wneud yr ehangiad hwn yn ymarferol. Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr mewn sefyllfa ryfedd o fod yn dymuno roi'r holl fyfyrwyr wedi'u comisiynu a'r holl fyfyrwyr heb eu comisiynu yn ei ardal mewn lleoliadau clinigol, ond mae AaGIC wedi ei atal rhag gwneud hynny.

### **GWEITHREDU**

Dylai strategaeth Llywodraeth Cymru/AaGIC gyflwyno proses dryloyw ar gyfer comisiynu addysg â swyddogaethau eglur i randdeiliaid, y mae'n rhaid iddynt gynnwys sefydliadau addysg uwch, cyrff proffesiynol ac undebau llafur a chraffu gan Senedd Cymru.

### **GWEITHREDU**

Mae angen archwilio'r posibilrwydd o gynyddu lleoedd yng Nghymru i fyfyrwyr nyrso nad ydynt wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru a'u cynorthwyo gyda mynediad at leoliadau clinigol y GIG.




## Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch

Mae prifysgolion Cymru wedi mynegi anawsterau ariannol wrth i geisiadau myfyrwyr i brifysgolion Cymru ostwng yn ystod pandemig COVID-19. Ym mis Gorffennaf 2019, nododd adroddiad ariannol Prifysgol Caerdydd fod gan y Brifysgol ddiffyg a oedd yn gyfanswm o £117.4 miliwn a diffyg gweithredu o £6.9 miliwn. Esboniodd y Brifysgol fod y bwloch mawr rhwng ei diffyg gweithredu a'i diffyg cyffredinol o ganlyniad i'r pwysau untro yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys £6.5 miliwn ar gyfer cynllun diswyddo gwirfoddol wrth i swyddi gael eu dileu a thaliad o £92.9 miliwn ar gyfer costau pensiwn y Cynllun Pensiwn y Prifysgolion ac ailwerthusiad cenedlaethol o'r cynllun yn 2017. Yn yr un flwyddyn, amcangyfrifodd Prifysgol Abertawe ddiffyg o £47 miliwn<sup>11</sup> ac amcangyfrifodd Prifysgol Bangor ddiffyg o £19.8 miliwn<sup>12</sup>.

Mae COVID-19 wedi chwyddo'r anawsterau ariannol a wynebir gan brifysgolion Cymru. Nid yw goblygiad ariannol COVID-19 i brifysgolion Cymru yn hysbys eto, ond disgwylir iddo fod yn sylweddol iawn. Mynegwyd pwysigrwydd y cyfraniad y mae ffioedd myfyrwyr rhyngwladol yn ei wneud at alluoedd ymchwil, addysgu ac arloesi prifysgolion gan Aelodau o'r Senedd yn Senedd Cymru.

<sup>11</sup> Prifysgol Abertawe, 2019. *Adolygiad Gweithredol ac Ariannol 2018–2019*  
<https://www.swansea.ac.uk/media/Adolygiad-Gweithredol-ac-Ariannol-2018-2019.pdf>, gwelwyd Tachwedd 2020

<sup>12</sup> Prifysgol Bangor, 2019. Datganiad Ariannol Terfynol 2018-2019,  
<https://www.bangor.ac.uk/finance/newyddion/arolwg-blynyddol-a-datganiadau-ariannol-2018-19-42510>, gwelwyd Tachwedd 2020



Eglurodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd y diffyg ariannol yn sgil gostyngiad sylweddol i nifer y myfyrwyr rhyngwladol yn llawer mwy nag y gall cyllidebau'r llywodraethau datganoledig ymdopi ag ef, a dyna pam mae Cymru yn dymuno gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn.


Mae cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru yn eithriadol o bwysig i addysg barhaus gweithlu nyrsio'r presennol a'r dyfodol.

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phrifysgolion Cymru i ganfod effaith ariannol lawn COVID-19 ar gynaliadwyedd y sector addysg uwch yng Nghymru.

### **GWEITHREDU**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i liniaru effaith ariannol COVID-19 a sicrhau cynaliadwyedd y sector addysg uwch yng Nghymru.



## Ynglŷn â'r Coleg Nyrso Brenhinol (RCN)

Yr RCN yw sefydliad proffesiynol ac undeb llafur nyrsys mwyaf y byd, yn cynrychioli tua 435,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau RCN yn gweithio yn y sector annibynnol ac yn y GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau yn gweithio yn y gymuned.

Mae'r RCN yn sefydliad y DU gyfan, â'i Fyrddau Cenedlaethol ei hun yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.